

Adroddiad Blynyddol Cadw

Ebrill 2020—Mawrth 2021





Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	4
Cyflwyniad	5
Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol	6
Sicrhau bod sgiliau o bwys	10
Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol a'i fwynhau	14
Gwneud i'n hamgylchedd hanesyddol weithio er ein lles economaidd	18
Cyflawni trwy bartneriaeth	22
Atoðiad	26



Rhagair gan y Dirprwy Weinidog

Croeso i adroddiad blynyddol Cadw ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2020–Mawrth 2021. Er bod y flwyddyn yr adroddir arni yn rhagflaenu fy mhenodiad fel Dirprwy Weinidog, mae Cadw bellach yn dod o fewn fy mhortffolio ac felly mae’n bleser gen i ysgrifennu’r rhagair.

Bydd darllenwyr, wrth gwrs, yn ymwybodol bod hon yn flwyddyn hollol wahanol i unrhyw flwyddyn arall. Ganol mis Mawrth 2020, cymerodd Cadw’r cam digynsail o gau ei holl henebion i ymwelwyr ac atal dros dro ei holl waith cadwraeth ar safleoedd. Yn wir, amharwyd yn sylweddol ar y flwyddyn gyfan wrth i staff Cadw weithio’n ddiflino i ailagor safleoedd, dim ond i orfod eu cau eto wrth i ‘ail don’ y pandemig gydio ym mis Rhagfyr.

Hoffwn dalu teyrnged i gadernid timau Cadw wrth iddynt ymateb i’r argyfwng; nid dim ond y timau safle, a gafodd eu hadleoli i rolau dros dro yn cefnogi timau eraill Llywodraeth Cymru wrth iddynt gymryd camau brys i gefnogi economi ehangach Cymru, ond hefyd y timau swyddfa. Bu llawer ohonynt yn darparu cefnogaeth hanfodol i’r rhaglenni ariannu brys a gadwodd y sector treftadaeth yn fyw yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau Bwrdd Cadw a gyfarfu drwy gydol y flwyddyn, gan roi anogaeth a chynghor lle bo angen. Wrth gwrs, fel yr oedd yn gyffredin mewn cynifer o weithleoedd, cynhaliwyd pob un o gyfarfodydd y Bwrdd yn ‘rhithwir’. Nid wyf yn credu y gallai unrhyw un ohonom fod wedi disgwyl i ail flwyddyn y Bwrdd Cadw newydd ddilyn y trywydd hwn. Serch hynny, mae’r adroddiad blynyddol yn dangos nifer anhygoel o lwyddiannau yn wyneb adfyd.



Dawn Bowden
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau
a Chwaraeon

Croeso. Welcome.

Er gwaethaf blwyddyn heriol, bu Cadw yn hynod weithgar mewn cymaint o wahanol feysydd gwaith. Unwaith eto, mae fformat yr adroddiad blynyddol yn adlewyrchu'r pum prif thema a nodir yn *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018. Yn cyd-fynd â phob adran mae astudiaeth achos sy'n dangos enghraifft o brosiect allweddol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Bydd y rhai mwyaf craff yn eich plith yn sylwi y bu newid cynnil ond pwysig yn y ffordd y mae Cadw'n cyflwyno ei negeseuon allweddol. Mae ein gwefan a'n cyhoeddiadau diweddar (gan gynnwys yr adroddiad hwn) yn adlewyrchu dull newydd o ymdrin â brand Cadw.

Nid mân newid yn unig yw hwn i'r logo neu'r ffont, ond arddull wedi'i ddiweddarau o negeseua a chyfathrebu. Mae hyn yn adlewyrchu ffordd newydd o gyflwyno ein prif genhadaeth o 'Ofalu am ein lleoedd hanesyddol, gan ysbrydoli cenedlaethau heddiw ac yfory' a'n gweledigaeth ar gyfer 'Cymru lle mae pawb yn gofalu am lleoedd hanesyddol, yn eu deall a'u rhannu'. Dyna'r rheswm dros ddefnyddio'r enw Cadw. Ni fu hyn erioed yn bwysicach nag ar adeg o argyfwng.

Rydym wedi gweithio'n ddiflino trwy gydol y flwyddyn i barhau i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol neilltuoel ac unigryw — ac nid dim ond yr henebion yr ydym yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae'r adran ar 'les economaidd' yn dangos y gwaith sylweddol a wnaed i gefnogi'r sector treftadaeth ehangach trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Rydym hefyd wedi cefnogi Gweinidogion Cymru i gadw pawb yn ddiogel trwy helpu gydag arweiniad a chynghor a chadw mewn cysylltiad rheolaidd â'n prif randdeiliaid.

Wrth i'r flwyddyn ariannol ddod i ben a blwyddyn newydd ddechrau, gwnaethom ffariwelio ag un Dirprwy Weinidog a chroesawu un arall. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas am y gefnogaeth a roddodd i'r sector yn ystod ei amser yn y swydd ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Dirprwy Weinidog newydd ar gyfer y Celfyddydau a Chwaraeon, Dawn Bowden, yn dilyn ei phenodiad wedi etholiadau diweddar y Senedd.

Newid sylweddol arall yn ystod y flwyddyn oedd adleoli pencadlys Cadw i swyddfa Llywodraeth Cymru ym Medwas, Caerffili, ar ôl galw Nantgarw yn gartref inni am 15 mlynedd. Roedd y cam hwn yn gyfle delfrydol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o gofnodion corfforol Cadw a chynnal rhaglen ddigido i leihau gofynion storio corfforol a sicrhau bod ein cofnodion archifol ar gael yn haws i staff Cadw sydd wedi'u gwasgaru ar draws swyddfeydd ledled Cymru. Maes o law, bydd yr archifau corfforol hyn yn cael eu cadw gan Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn Aberystwyth lle gall y cyhoedd ehangach gael mynediad atynt.

Ac yn olaf, rwyf am ategu ein diolch i holl aelodau Cadw am eu cefnogaeth barhaus ac i bawb sydd wedi adnewyddu eu haelodaeth ac wedi parhau'n deyrngar i'n hachos trwy'r cyfnod anodd hwn. Eu cefnogaeth barhaus sy'n ei gwneud hi'n bosibl i ni warchod a diogelu'r amgylchedd hanesyddol er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol. Ac am hyn rydym yn dragwyddol ddiolchgar.

Jane Richardson

Cadeirydd Bwrdd Cadw

Jason Thomas

Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Cadw

Gwilym Hughes

Pennaeth Cadw

Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol

Henebion Cadw

£4,262 mil



Gwariant ar brosiectau buddsoddi a chadwraeth a ariennir gan gyfalaf.

£2,406 mil



Gwariant ar reoli cyfleusterau ar safleoedd Cadw.

Yr amgylchedd hanesyddol ehangach

£726 mil

Cyfanswm gwerth y grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd i asedau hanesyddol naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.

34

Adeilad a ychwanegwyd at y rhestr statudol o adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

116

Cyhoeddi caniatâd heneb gofrestredig.

361

O ymgynghoriadau ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig.

102

O asesiadau wedi'u cwblhau ar gyfer cofrestrriad neu restrriad newydd.

3

Heneb a ychwanegwyd at y rhestr o henebion sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

1,615

O ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio.

462

O ymgynghoriadau eraill, gan gynnwys dogfennau strategaeth a pholisi.

Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol

Cafodd yr holl waith cadwraeth yn henebion Cadw, ar wahân i waith brys, cysylltiedig â diogelwch, ei atal dros dro yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020. Dychwelodd Cadwraeth Cymru, ein tîm cadwraeth, i safleoedd ym mis Mehefin, gydag arferion gweithio diogel coronafirws (COVID-19) ar waith, i barhau â'r rhaglen barhaus o waith cadwraeth hanfodol.

Roedd hyn yn cynnwys dechrau rhaglen tair blynedd o waith cadwraeth yng Nghastell Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, a fydd yn sicrhau bod y castell yn hygyrch i bawb am flynyddoedd lawer i ddod. Mae'r prosiect mawr hwn yn cynnwys ailbwyntio, pinio strwythurol ac ailadeiladu rhannau o waith maen, sefydlogi topiau waliau a mewnosod linteli coll, gyda phob un yn defnyddio sgiliau a deunyddiau traddodiadol.

Y tu hwnt i safleoedd Cadw, teimlwyd effaith cyfnodau clo COVID-19 yn fawr ar draws y sector treftadaeth ac yn benodol ar hynt prosiectau cadwraeth. Am ran helaeth o'r flwyddyn, ailganolbwyntiwyd ein tîm grantiau amgylchedd hanesyddol i ddarparu dros £4 miliwn o gefnogaeth i'r sector treftadaeth trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol (gweler yr astudiaeth achos, t.21).

Gwnaethom hefyd ddyfarnu £726 mil i brosiectau cadwraeth ledled Cymru, gan gynnwys £450 mil i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol. Nodir y manylion yn yr adran ar grantiau cyfalaf (Tabl 1) yn yr Atodiad.

Roedd grantiau adeiladau hanesyddol Cadw yn amrywio o £1,150 i gyngor cymuned ar gyfer atgyweirio dau flwch ffôn rhestredig ym Maesteg, i £50,000 i Sefydliad Enbarr ar gyfer gwaith amddiffyn i dwr y cloc ar adeilad swyddfa hen Waith Dur John Summers ar Lannau Dyfrdwy. Mewn man arall, gwnaeth ein cyllid gefnogi adeiladau allweddol sydd mewn perygl, gan gynnwys eglwys segur yn Abertawe, a fydd yn gartref i Circus Eruption — syrcau ieuenctid yn Abertawe — a'r hen synagog ym Merthyr Tudful.

Dyma'r synagog pwrpasol hynaf yng Nghymru, lle mae cynlluniau i'w droi yn Ganolfan Treftadaeth Iddewig Cymru. Gwnaethom hefyd gefnogi cadwraeth pedair cofeb ryfel a 18 heneb gofrestredig.

Mae Tabl 1 hefyd yn rhestru'r grantiau refeniw yr ydym wedi'u darparu i'r sector amgylchedd hanesyddol ehangach yn ystod y flwyddyn. Mae'r grantiau hyn yn hanfodol i alluogi sefydliadau arbenigol i ddarparu cyngor awdurdodol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac i ofalu am ein lleoedd hanesyddol arbennig.

Er i'r pandemig darfu, gwnaethom asesu 102 o safleoedd hanesyddol ledled Cymru i ystyried a oeddent yn bodloni meini prawf llym i gael amddiffyniad arbennig fel heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig. Roedd y 37 dynodiad newydd yn cynnwys blwch ffôn y Gymdeithas Foduro yn Nant-yffin a thair ardal ar raddfa fawr yn gysylltiedig ag enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru (gweler yr astudiaeth achos, t. 9). →

Isod: Gwaith cadwraeth yng Nghastell Coety, Pen-y-bont ar Ogwr.



Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol



Yn rhyfeddol efallai, er gwaethaf y cyfnodau clo, fe drodd 2020–21 yn flwyddyn dda i gynllunio gwaith achos ac ymgynghoriadau eraill, gyda chynnydd o 24 y cant ers 2019–20 — gan gynnwys 116 o gydsyniadau i henebion cofrestredig a 361 o gydsyniadau i adeiladau rhestredig.

Aeth gwaith ymlaen hefyd ar ddeddfwriaeth newydd ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru i gydgrynhoi'r gymysgedd bresennol o ddarpariaethau a newidiwyd dro ar ôl tro, y mae llawer ohonynt ar gael yn Saesneg yn unig. Y canlyniad fydd Deddf ddealladwy a hollol ddwyieithog yn ailddatgan cyfraith Cymru. Rydym yn gobeithio cyflwyno'r Bil i'r Senedd yn hanner cyntaf 2022 a dylai ddod yn gyfraith erbyn diwedd y flwyddyn honno.

Rydym hefyd wedi parhau i weithredu ychydig o ddarpariaethau olaf Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a wnaeth welliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer amddiffyn a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn gynnar yn 2021, ymgynghorodd Cadw ar ddeddfwriaeth eilaidd newydd a chanllawiau ar gyfer Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth. Cytundebau gwirfoddol yw'r rhain rhwng perchnogion ac awdurdodau cydsynio sy'n rhoi caniatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig ymlaen llaw ar gyfer rhaglen waith y cytunwyd arni dros gyfnod estynedig.

Chwith: Blwch Ffôn AA161, ar yr A40 rhwng Crucywel a Thretŵr, oedd un o'r henebion mwy anarferol i gael eu rhestru yn 2020–21.



Yn ystod 2020–21, cyflwynodd ein tîm grantiau amgylchedd hanesyddol gefnogaeth o dros £4 miliwn ar gyfer y sector treftadaeth trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.

Astudiaeth achos

System Chwarel, Tramffordd ac Inclein Rhiwbach

Trwy gydol y flwyddyn, parhaodd arolygwyr Cadw i weithio gyda phartneriaid yng Nghyngor Gwynedd a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i gefnogi'r cais i UNESCO am statws Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Roedd hyn yn cynnwys dynodi nifer o asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol.

Un o'r rheini, a drefnwyd ym mis Ionawr 2020, oedd Chwarel Rhiwbach. Mae'n cynnwys y chwarel, pentref chwarel, melinau wedi'u pweru ag ager, system inclein a thramffordd i Flaenau Ffestiniog. Mae'r ardal ddynodedig yn cynnwys tystiolaeth o bob cam o'r broses chwarela, gan gynnwys system gludo, prosesu, rheoli dŵr, gwastraff a thrafnidiaeth helaeth sydd wedi'i chadw'n dda.

Dechreuodd ecsbloetio masnachol yn Chwarel Rhiwbach tua 1812 a chludwyd y llechen trwy Gwm Machno i'w hanfon o Drefriw yn nyffryn Conwy. Erbyn yr 1860au, pan ddaeth Rheilffordd Ffestiniog yn llwybr trafndiaeth a ffefrir, datblygodd perchnogion y chwarel dramffordd fwydo uchelgeisiol i gludo deunydd dros y mynydd i Ffestiniog.

Cysylltodd Tramffordd Rhiwbach nifer o chwareli'r ucheldir a oedd fel arall yn anghysbell ac yn anhygyrch, gan gynnwys Rhiwbach, Blaen y Cwm a Chwt y Bugail.

Ym mhen gorllewinol y system dramffordd, cysylltai tri phlân ar oleddf sylweddol y dramffordd â chwareli Maenofferen, Fotty a Bowydd ac ymlaen i dref Blaenau Ffestiniog. Er gwaethaf maint y gwaith yn Rhiwbach, nid oedd y chwarel byth yn cynhyrchu mwy na 6,000 tonnall y flwyddyn a chredir iddi gael cymhorthdal sylweddol gan reffeniwr'r dramffordd.

Mae Chwarel Rhiwbach o bwysigrwydd cenedlaethol fel safle cynhyrchu llechi sydd mewn cyflwr da. Mae hefyd yn lle o bwys oherwydd ei botensial i wella ein dealltwriaeth o'r diwydiant. Mae'n cadw sawl elfen unigryw, gan gynnwys ei system bŵer, inclein allanfa wedi'i bweru gan stêm, anheddiad domestig a ffensys llechi postyn-a-rheilffordd. Mae'r system dramffordd yn helaeth ac yn cynrychioli rhan bwysig o'r seilwaith trafndiaeth ar gyfer y diwydiant llechi yn Ffestiniog, gan gysylltu sawl ardal chwarela'r ucheldir â Rheilffordd Ffestiniog a oedd wedi dod yn ddylanwadol iawn erbyn yr 1860au.



Uchod ar y dde: Ty Weindio, Chwarel Rhiwbach, Gwynedd.
© Hawlfraint y Goron: CBHC

Ar y dde: Tramffordd Rhiwbach, inclein 3, i'w weld o'r de.
© Hawlfraint y Goron: CBHC



Sicrhau bod sgiliau o bwys

Mae'r cyfnodau clo wedi effeithio'n ddrwg ar y diwydiant adeiladu. Ymhlith yr effeithiau negyddol mae atal llawer o weithgareddau hyfforddi a gyrfaedd wyneb yn wyneb. Serch hynny, bu'n amser prysur i ddatblygu safonau hyfforddi a chymwysterau, yn ymwneud yn benodol ag uwchraddio cartrefi Cymru (ôl-osod) er mwyn lleihau allyriadau carbon (datgarboneiddio).

Mae gan adeiladau traddodiadol a hanesyddol ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i gyflawni ymrwymiad cyfreithiol Llywodraeth Cymru i gyflawni allyriadau sero carbon net erbyn 2050. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ddatblygu gweithlu medrus, hyfforddedig a chymwys os ydym am wella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau hyn wrth amddiffyn eu harwyddocâd ac osgoi canlyniadau anfwriadol hefyd.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae Cadw wedi cyfrannu at yr adolygiad o Safon Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Lefel 2 Inswleiddio a Thriniaethau Adeiladu, Lefel 4 Goruchwyllo Safleoedd Adeiladu NOS a Lefel 6 Rheoli Safleoedd Adeiladu NOS. Ychwanegwyd cynnwys yn ymwneud ag adeiladau traddodiadol a hanesyddol a chrëwyd llwybrau ôl-osod newydd yn y safonau goruchwyllo a rheoli, gan baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu cymwysterau dilyniant sydd mawr eu hangen. Gobeithiwn y bydd y cymwysterau hyn yn creu llwybr clir at ddilyniant gyrfa ac yn helpu i godi safonau yn y diwydiant ôl-osod.




Mae gan adeiladau traddodiadol a hanesyddol ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i gyflawni ymrwymiad cyfreithiol Llywodraeth Cymru i gyflawni allyriadau sero carbon net erbyn 2050.

Rydym nawr yn cydweithio â thimau Datgarboneiddio a Phrentisiaeth Tai Llywodraeth Cymru a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) i helpu i ddarparu cymwysterau ôl-osod yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn hon gwnaethom hefyd barhau i gefnogi Cymwysterau Cymru i ddatblygu'r cymwysterau adeiladu ac amgylchedd adeileidig newydd, gan gynghori ar gynnwys y cymwysterau a'r adnoddau addysgu, ac ar gynigion ar gyfer uwchsgilio staff coleg. Roedd ein gweithgareddau'n cynnwys cymryd rhan mewn gweithdy a drefnwyd gan Gymwysterau Cymru a CBAC ar gyfer athrawon y TGAU newydd mewn Amgylchedd Adeileidig, a gyflwynir o fis Medi 2021. Roedd y pynciau'n cynnwys adeiladau traddodiadol a thechnegau adeiladu, deunyddiau ac amrywiadau rhanbarthol, sut i ddeall adeiladau a'u hesblygiad, a chynnal a chadw adeiladau.

Isod: Fe wnaethon weithio gyda Chymwysterau Cymru i ddatblygu adnoddau addysgu ar gyfer cymwysterau amgylchedd adeileidig ac adeiladu.



Sicrhau bod sgiliau o bwys

Astudiaeth achos

Y Castell Newydd, Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'n hanfodol bod gennym y sgiliau cywir i warchod, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau hanesyddol sydd dan ein gofal. Mae cynnal sgiliau crefft traddodiadol yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn y mae Cadw yn ei wneud ac nid oes unrhyw enghraifft well ohono na chan ein tîm cadwraeth ein hunain yn Y Castell Newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yma, roedd drws derw'r castell wedi camdroi mor wael wrth i ddŵr ymdreiddio i'w gymalau agored nes ei fod bron yn amhosibl ei gau.



Ar ôl asesiad, aethpwyd â'r drws i'r gweithdy a gosodwyd drws dros dro i ddiogelu'r safle. Cafodd yr holl nwyddau haearn eu symud a'u hadnewyddu'n ofalus yn barod i'w hailddefnyddio.


Cofnodwyd pob elfen o'r drws yn ofalus — adeiladwaith, lled planc, beflau — a thorrwyd pren derw Ewropeaidd aeddfed i weddu. Yna, gorffennwyd pob darn o'r drws i'r gorffeniad dymunol. Roedd gan y drws gwreiddiol gyfansoddiad haenog ac ailgrëwyd hynny yn yr un newydd.

Roedd ailadeiladu'r giât yn broses ofalus. Cymerodd y saer ofal mawr i barchu proffiliau gwreiddiol y drws. Cafodd y cymalau eu gludo a'u sgriwio, a chafodd y tyllau gwrthsoddedig eu plygio â hoelbrennau derw fel bod grawn y plygiau'n rhedeg yn gyfochrog â'r derw o'u cwmipas. Ar ôl sychu, rhwbiwyd unrhyw hoelbrennau a oedd yn treiddio allan â llaw i greu gorffeniad gwastad, anhydraidd. Cyn ailosod y gwaith haearn rhoddwyd cotiau lluosog o olew had llin i'r drws; caniatwyd i bob cot amsugno cyn rhoi'r got nesaf.

Cafodd y nwyddau haearn driniaeth ofalus hefyd. Ar ôl eu tynnu, cawsant eu glanhau'n ysgafn â graean i gael gwared ar flynyddoedd o baent oedd wedi cronni, a hynny er mwyn cyrraedd y metel gwreiddiol. Cafodd y rhain eu preimio a'u tan-orchuddio cyn i ddwy got o baent gael eu peintio'n ofalus ar yr holl wyneb. Yna, gyrrwyd hoelion dur pen petryal du wedi'u paentio i'r planciau — gyda'u patrwm a'u bylchau yn adlewyrchu'r gwreiddiol — a'u pennau'n cael eu troi a'u gosod yn wyneb y pren derw.

Cafodd y giât 'newydd' a ddeilliodd o'r broses ei gosod — wedi'i gorffen — ar y safle a bydd yn para am flynyddoedd lawer.

Cyn yr adferiad:
Y drws wedi'i gamdroi
yn Y Castell Newydd,
Pen-y-bont ar Ogwr.



Wedyn: Gweithiodd tîm cadwraeth Cadw yn ddiplino i sicrhau bod y drws newydd a adeiladwyd ar gyfer y castell yn driw i'r dyluniad gwreiddiol.

Isod ar y chwith a'r dde: Mae gwybodaeth am sgiliau adeiladu a thechnegau adeiladu traddodiadol yn allweddol ar gyfer gofalu am ein hadeiladau hanesyddol a'u cadw.



Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol a'i fwynhau

113,908



O ymwelwyr â safleoedd Cadw â staff.

44,648



O aelodau Cadw.

1,659+



O gynnydd yn nifer aelodau Cadw.

433%



O gynnydd yng ngweithgaredd defnyddwyr Cof Cymru — gwasanaeth ar-lein Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru.

149%



O gynnydd mewn ymweliadau â chynnwys Dysgu Gydol Oes.

8,829



Edrychiad ar dudalen Drysau Agored Cadw ar-lein.

Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol a'i fwynhau

Yn ystod blwyddyn ariannol 2020–21, gwelwyd newid digynsail a chyson yn y ffordd yr oedd yn rhaid i ni weithredu ein henebion, yn enwedig y safleoedd â staff. Ar sail iechyd cyhoeddus, gwnaethom benderfynu cau ein holl henebion i ymwelwyr ar 17 Mawrth 2020.

Er mwyn ailagor safleoedd yn ddiogel yn ystod haf 2020, gwnaethom osod cyfarpar diogelu personol sefydlog (PPE) a pharatoi asesiadau risg COVID-19 (yn benodol i bob safle). Roedd cyfundrefnau glanweithdra manylach, rheoli symudiad pobl (megis gosod systemau unffordd) a rheoli nifer yr ymwelwyr ar y safle yn allweddol i ailagor yn llwyddiannus, a darparwyd hyfforddiant pwrpasol i'r holl staff. Mae gweithredu'r newidiadau hyn wedi profi cadernid ein timau o geidwaid ac un canlyniad cadarnhaol yw bod hyder yn eu rheolaeth ar faterion iechyd a diogelwch bellach wedi cynyddu'n barhaol.

O ran profiad yr ymwelydd, y newid mawr fu'r angen i archebu ymweliadau ymlaen llaw fel y gallem reoli niferoedd ar y safle ar unrhyw adeg. I gefnogi'r gweithrediad hwn, gwnaethom sefydlu llinell gymorth sydd wedi'i chadw ac yn parhau i gynnig cefnogaeth ddwyieithog i gwsmeriaid.

Isod ar y chwith a'r dde: Fe wnaethom gyflwyno system docynnau ar-lein yn ystod 2020–21 i reoli nifer yr ymwelwyr sy'n dod i mewn i'n safleoedd fel y gallwn ailagor ein henebion yn ddiogel.



Yn anocheff l, mae rheoliadau COVID-19 wedi effeithio ar brofiad yr ymwelydd ac i wneud iawn am fynediad cyfyngedig i ardaloedd mewnol, gwnaethom gynnig mynediad â gostyngiad pan wnaethom ailagor gyntaf. Mae cyfyngu nifer yr ymwelwyr ar un tro a rhagarchebu hefyd wedi golygu ein bod wedi gorfod gwrthod mynediad am y tro cyntaf ac mae hyn wedi bod yn anodd i ymwelwyr a staff. Serch hynny, rydym wedi derbyn adolygiadau rhagorol gan ymwelwyr am greu profiad diogel a difyr i ymwelwyr yn ystod y pandemig.

Hefyd, o ganlyniad i'r cyfnod clo cyntaf, bu'n rhaid i ni atal ein rhaglen flynyddol o 300+ o ddigwyddiadau ar safleoedd Cadw. Mewn ymateb, gwnaethom gynnig ffyrdd newydd o brofi ein treftadaeth gan ddefnyddio ein llwyfannau digidol i gadw ein haelodau a'n hymwelwyr yn gysylltiedig â threftadaeth Cymru trwy gydol y cyfnod anodd hwn.

Ym mis Medi 2020, gwnaethom gynnig y digwyddiad rhithwir, Drysau Agored, ar gyfer pedwar maes thematig: beddrodau Neolithig, cestyll y de, abatai a gweithfeydd haearn, a chestyll y gogledd. Derbyniodd gwe-dudalennau Drysau Agored 8,829 edrychiad a chymaint oedd eu llwyddiant, maent bellach wedi dod yn nodwedd barhaol ar y wefan o dan y teitl 'Ymweliadau Rhithiol'. Rydym yn dal i ehangu a datblygu'r rhain. ➡



Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol a'i fwynhau

Bu cau ysgolion a sefydliadau addysg hefyd yn heriol i lawer. Gwnaethom gefnogi'r 'dosbarthiadau cartref' newydd drwy ein tîm Dysgu Gydol Oes a gynhyrchodd amrywiaeth o ffilmiau gyda'r nod o gau'r bwlch addysg treftadaeth. Roedd hyn yn cynnwys fideos o ryseitiau Tuduraidd blasus, cymeriadau hanesyddol, traddodiadau'r Nadolig a chynnwys â thema yn gysylltiedig â thraddodiadau diwylliannol Cymru a seintiau Cymru. Cyfrannodd y tudalennau newydd hyn at gynnydd o bron i 149 y cant mewn edrychiadau yn 2020 o'i gymharu â 2019.

Yn absenoldeb rhaglen boblogaidd Cadw o ddigwyddiadau Nadoligaidd, gan gynnwys grotos Siôn Corn, fe wnaethom ryddhau tri fideo Nadoligaidd eu naws wedi'u hanelu at ein hymwelwyr iau gyda negeseuon gan Siôn Corn. Cafodd y rhain eu fflmio yng Nghastell Coch a'u rhyddhau yn y cyfnod cyn y gwyliau.



Fe ddefnyddion ni ein llwyfannau digidol i gadw ein haelodau a'n hymwelwyr yn gysylltiedig â threftadaeth Cymru trwy gydol y cyfnod anodd hwn.

Fe wnaeth ap Cadw alluogi ymwelwyr i barhau i ddarganfod treftadaeth Cymru o gartref. Dangosodd lluniau a delweddau rhyngweithiol sut olwg oedd ar safleoedd Cadw yn y gorffennol. Roedd yr adrannau fideo a CGI yn dangos animeiddiadau fideo 360-gradd, ynghyd â cherddoriaeth atmosfferig, a safleoedd wedi'u hail-greu, fel Caer Rufeinig Segontium, i ddangos sut y gallent fod wedi edrych yn eu dydd. Fe wnaethom hefyd gynnig llwybrau digidol o amgylch rhai o'n safleoedd mwyaf eiconig, gan gynnwys muriau tref Conwy.

Anogodd y prosiect Treftadaeth 15 Munud (gweler yr astudiaeth achos gyferbyn) bobl i greu eu straeon treftadaeth 15 munud eu hunain trwy ddefnyddio dolenni at adnoddau allanol, gan gynnwys Casgliad y Werin Cymru, Archwilio a Coflein yn ogystal â Cof Cymru.

Roedd yr holl gynnwys newydd hwn yn golygu bod Cof Cymru — gwasanaeth ar-lein Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru Cadw — wedi gweld cynnydd dramatig yng ngweithgaredd defnyddwyr yn ystod 2020, gydag ymweliadau 433 y cant yn uwch yn 2020 o'i gymharu â 2019.

Ni wnaethom anghofio ychwaith ein Prosiect Treftadaeth Ddisylw (a gafodd sylw yn adroddiad blynyddol y llynedd). Cafodd ei ddyddiad gorffen ei ymestyn i Wanwyn 2021 gyda chynhadledd ar-lein lwyddiannus yn disodli'r digwyddiad byw arfaethedig.



Chwith: Taith rithwir o gwmpas Siambr Gladdu Pentre Ifan, Sir Benfro, ar gael ar wefan Cadw.

Astudiaeth achos

Treftadaeth 15 Munud

Mae profiad y flwyddyn ddiwethaf wedi ein gwneud ni i gyd yn ymwybodol o bwysigrwydd ein lleoedd lleol. Credwn fod treftadaeth ym mhobman ac roeddem am ddod o hyd i ffyrdd o ddangos sut mae ein gorffennol yn cyfrannu at bob man lleol.

I ddal hyn, fe wnaethom greu Treftadaeth 15 Munud, wedi'i ysbrydoli gan gysyniad cynllunio o'r enw'r Ddinas 15 Munud, lle mae pawb yn gallu diwallu'r rhan fwyaf o'u hanghenion o fewn taith gerdded fer neu daith feicio o'u cartref.

Rydym wedi gallu hyrwyddo'r syniad hwn mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, rydym wedi bod yn annog pobl i ailddarganfod yr hyn sydd ar stepen eu drws trwy rannu ein straeon treftadaeth ein hunain. I wneud hyn, rydym yn defnyddio StoryMap, platfform perchnogol ar y we sy'n defnyddio mapiau wedi'u cyfuno â thestun naratif, delweddau a chyfryngau eraill i greu straeon digidol am le.

Tra bu safleoedd Cadw ar gau, bu rhai o'n ceidwaid yn archwilio eu hardaloedd lleol i helpu i ddangos bod treftadaeth ym mhobman. Maent wedi dod o hyd i hanes ar strydoedd pentref, mewn ystâd dai, o dan ffyrdd modern ac ystadau diwydiannol, mewn coedwig, mewn parc — unrhyw le sy'n arbennig iddyn nhw.

Roeddem hefyd yn gallu gwahodd pobl i gymryd rhan yn uniongyrchol wrth archwilio eu treftadaeth ar stepen ddrws eu hunain. Trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol (gweler yr astudiaeth achos t. 21), dyrannodd Cadw £300,000 i gynllun grant Treftadaeth 15 Munud a gyflwynwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF). Nod y cynllun oedd cefnogi prosiectau a helpodd i gysylltu cymunedau â'u treftadaeth leol eu hunain. Oherwydd poblogrwydd y cynllun, cynyddwyd y dyraniad i £600,000, gyda'r NLHF yn cyfrannu £100,000 ychwanegol o'u harian eu hunain.

Cefnogwyd 84 o brosiectau ledled Cymru — o leiaf un ym mhob ardal awdurdod lleol — hyd at uchafswm o £10,000 yr un. Dangosodd y prosiectau ehangder dychmygus o ymateb i ddehongliad amrywiol iawn o dreftadaeth,

gydag ymrwymiad cryf i amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd y pynciau'n amrywio o straeon lleoedd ac adeiladau penodol, i straeon pobl a chymunedau penodol.

Daeth ymgysylltiad â threftadaeth o weithgareddau awyr agored fel llwybrau cerdded a beicio a gefnogir gan ddeunyddiau deongliadol, yn ogystal ag wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein gan gynnwys celf weledol, recordio, ffilm a chreu fideos.

Mae Treftadaeth 15 Munud wedi cael croeso brwd — roedd cyfranogwyr ein prosiect creu straeon ein hunain yn ei chael yn werth chweil, ac mae'r ymateb ysgubol i'r cynllun grant yn awgrymu diddordeb dwys a llawn asbri i dreftadaeth leol bron ym mhobman.

Er i'r syniad esgor o'r cyfnod clo, gobeithiwn y bydd Treftadaeth 15 Munud yn gwneud cyfraniad parhaus i brofiad lle mewn cymunedau ledled Cymru.



Uchod: Mae treftadaeth hefyd yn ymwneud â phobl a'u straeon, fel y mae cofebion hen a newydd yn ein hatgoffa. Gellir gweld cerflun o'r digrifwr Tommy Cooper yn ei fan geni, ger Castell Caerffili.



Chwith: Derbyniodd y Tin Shed Theatre Co. grant Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i gefnogi prosiect a oedd yn cysylltu cymunedau â'u treftadaeth leol. © NLHF

Gwneud i'n hamgylchedd hanesyddol weithio er ein lles economaidd

Cefnogaeth economaidd ehangach

£5,712 mil

Trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.
Cymorth brys wedi'i roi i sefydliadau treftadaeth.

98

O sefydliadau treftadaeth wedi derbyn cymorth trwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.

Gweithgaredd masnachol Cadw

£1,161 mil

Cyfanswm incwm masnachol (gostyngiad o 87% yn y cyfnod 2019–20).

Roedd hyn yn cynnwys:

£419 mil

Incwm mynediad.

£465 mil

Incwm aelodaeth.

£188 mil

Incwm gwerthiannau manwerthu.

£35 mil

Incwm llogi masnachol.

£54 mil

Ystadau a ffynonellau incwm eraill.

Gwneud i'n hamgylchedd hanesyddol weithio er ein lles economaidd

Bu pandemig COVID-19 yn hynod heriol i bob diwydiant, gyda'r diwydiant twristiaeth a'r sector amgylchedd hanesyddol yr un peth. Mae'r cymunedau y saif ein henebion ynddynt wedi dioddef yn fawr oherwydd y cyfnodau clo cenedlaethol a lleol angenrheidiol wrth i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â lledaeniad y firws.

Yn anochel, arweiniodd cau ein henebion at gwmp ym mhrif ffynonellau incwm Cadw gydag incwm mynediad i lawr i ddim ond £419 mil (o'i gymharu â £4,752 mil yn 2019–20), ac incwm manwerthu i lawr i ddim ond £188 mil (o'i gymharu â £1,982 mil yn 2019–20).

Er y bu'n rhaid i ni ganslo pob digwyddiad ar ein safleoedd a lleihau niferoedd mewn seremonïau priodas,

caniatwyd ffilmio a chynhaliwyd 30 darn o waith ffilmio masnachol mewn dros 20 o wahanol safleoedd Cadw yn ystod y flwyddyn, gan greu rhywfaint o refeniw yr oedd mawr ei angen. Roedd pob ffynhonnell incwm, fodd bynnag, yn is o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol, gyda'r cyfanswm cyffredinol yn cyrraedd dim ond £1.161 miliwn (o'i gymharu â dros £8 miliwn yn 2019–20).

Gwnaethom arbedion i nifer o linellau gwariant ar draws ein gweithgareddau a darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i wneud iawn am y diffyg net. Serch hynny, gwnaethom gynnal ein grantiau i'r sector amgylchedd hanesyddol ar y lefel a gynlluniwyd. Fe wnaethom hefyd gynnig gostyngiad o 50 y cant i aelodau ar brisiau aelodaeth newydd ac ymestyn aelodaeth gyfredol o 6 mis i ddigolledu aelodau am fethu ag ymweld â safleoedd.

Bu'n rhaid gohirio llawer o fentrau a gynlluniwyd ar gyfer 2020 oherwydd pandemig COVID-19 hefyd. ➡

Mae Castell Coch yn lleoliad poblogaidd ar gyfer ffilmio. Llogodd *Dark Temple Motion Pictures* Gastell Coch a Chastell Rhaglan ym mis Mawrth 2021, gan gynhyrchu incwm cyfun o £7 mil.



Gwneud i'n hamgylchedd hanesyddol weithio er ein lles economaidd

Wrth i staff ddelio â gofynion mwy dybryd, gan gynnwys cyflwyno system docynnau ar-lein dros dro i ganiatáu i ymwelwyr brynu a lawrlwytho tocynnau ymlaen llaw. Bu hwn yn brofiad gwerthfawr ac mae Cadw wedi dysgu llawer cyn cyflwyno system docynnau ar-lein tymor hir sydd ar y gweill ar gyfer 2021–22. Fe wnaethom hefyd gyflwyno canolfan gyswllt ddwyieithog sydd wedi cael croeso cynnes gan ymwelwyr ac aelodau fel ei gilydd.

Er gwaethaf yr heriau a daflodd COVID-19 atom, rydym wedi parhau i weithio ar foderneiddio ein systemau manwerthu, aelodaeth a thocynnau trwy ddatblygu System Rheoli Busnes newydd. Gobeithiwn y bydd hyn yn ein helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'n safleoedd ac yn ein helpu i wella profiad yr ymwelydd.

Er gwaethaf y cyfnodau clo, gwnaethom gynydd sylweddol gyda nifer o'n prosiectau buddsoddi cyfalaf. Penodwyd contractwyr a dechreuwyd ar y gwaith o ailwampio Porth y Brenin yng Nghastell Caernarfon a'r Ysgubor Fawr yn Llys Tretŵr. Gwnaethom gynydd sylweddol hefyd ar y cynlluniau datblygu ar gyfer rhaglen fuddsoddi fawr yng Nghastell Caerffili, a fydd yn cynnwys cyfleuster arlwygo a chanolfan ymwelwyr newydd, adnewyddu'r Neuadd Fawr a dehongliad newydd.

Y tu hwnt i safleoedd Cadw ei hun, mae'r sector treftadaeth wedi elwa o ystod eang o becynnau cymorth economaidd a ddarperir gan lywodraethau'r DU a Chymru, ac nid oes amheuaeth y bu hyn yn hanfodol ar gyfer goroesiad llawer o sefydliadau treftadaeth yn ystod blwyddyn heriol iawn. Mae staff Cadw wedi chwarae rhan flaenllaw wrth ddylunio'r cynllun grant Cronfa Adferiad Diwylliannol a dosbarthu'r gefnogaeth i sefydliadau treftadaeth (gweler yr astudiaeth achos, t 21). Roedd sefydliadau treftadaeth ac unigolion hefyd yn gallu elwa o fesurau cymorth ehangach, gan gynnwys Cronfa Llawrydd Cymru a'r Gronfa Cadernid Economaidd.



Uchaf: Golwg ar y gwaith parhaus yng Nghastell Caernarfon, Gwynedd, i osod dec to ac adfer y lloiau ym Mhorth y Brenin er mwyn gwella profiad yr ymwelydd.

Uchod: Yn ystod 2020–21, dechreuodd y gwaith o drosi ysgubor o'r bymthegfed ganrif yn ganolfan i ymwelwyr yn Llys a Chastell Tretŵr, Powys.



Bydd datblygu System Rheoli Busnes newydd yn ystod 2020–21 yn ein helpu i dyfu nifer yr ymwelwyr â'n safleoedd a gwella profiad yr ymwelydd.

Astudiaeth achos

Y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Ddiwedd haf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Adferiad Diwylliannol — cynllun grant i ddarparu cefnogaeth i sefydliadau a busnesau diwylliannol yr effeithiwyd arnynt yn andwyol gan gyfnodau clo a chyfyngiadau COVID-19.

Roedd Cadw yn gyfrifol am ddylunio a darparu'r gefnogaeth i'r sector treftadaeth. Ein nod oedd helpu safleoedd ac atyniadau treftadaeth, a'u staff:

- I oroesi'r cyfnodau clo
- I ofalu am eu hasedau hanesyddol a chymryd camau i'w paratoi ar gyfer ailagor
- I ddod yn ddiogel yn y pandemig (er enghraifft, trwy wella gwasanaethau digidol/gweithio gartref).

Fe wnaethom sefydlu tri chynllun grant yn seiliedig ar werth y gefnogaeth oedd ei hangen — hyd at £10 mil, hyd at £150 mil a hyd at £500 mil — a rhoi mecanweithiau asesu cymesur ar waith gan gydnabod yr angen i helpu sefydliadau a oedd wedi anobeithio cyn gynted â phosibl. Arweiniodd ffenestr ymgeisio pythefnos o hyd at 136 o geisiadau gan y sector treftadaeth.

Asesodd ein tîm grantiau bob cais a derbyniodd y rhai dros £150 mil graffu ychwanegol gan banel Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar asesiadau manwl a ddarparwyd gan Cadw. Yn gyffredinol, talodd y Gronfa Adferiad Diwylliannol £5,712 mil i 98 o sefydliadau yn y sector treftadaeth. Dangosir rhestr o'r grantiau a ddyfarnwyd yn Nhabl 2 yn yr Atodiad.

Daeth deugain o geisiadau gan weithredwyr atyniadau treftadaeth sy'n dibynnu ar incwm gan ymwelwyr. Roedd y rhain yn amrywio o safleoedd mawr fel y naw rheilffordd dreftadaeth i gestyll a weithredir gan ymddiriedolaethau preifat ac atyniadau llai fel Mwyngloddiau Copr y Gogarth, Mwynglawdd Copr Sygun a Mwynglawdd Arian Llywernog ger Aberystwyth. Hefyd, helpwyd nifer o adeiladau crefyddol, gan gynnwys eglwysi cadeiriol Aberhonddu, Tyddewi, Llandaf a Llanelwy, a derbyniodd 22 o eglwysi grantiau o lai na £10 mil i helpu gyda'u gwaith cynnal a chadw ac i ddod o hyd i ddatrysiadau digidol newydd i gynhyrchu incwm i ddisodli casgliadau dydd Sul.

Derbyniodd wyth sefydliad archeolegol gefnogaeth — gan gynnwys pob un o bedair ymddiriedolaeth archeolegol Cymru a thri busnes cadwraeth arbenigol.

Credwn fod y Gronfa Adferiad Diwylliannol 2020–21 wedi bod yn achubiaeth hanfodol i gefnogi'r sector treftadaeth yng Nghymru yn ystod dyddiau anodd y cyfnod clo. O ganlyniad, bydd cynllun pellach yn darparu cefnogaeth bellach tan 30 Medi 2021. Mae gwerthusiad ffurfiol o weithrediad ac effeithiolrwydd y cynllun ar y gweill ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo adrodd yn hwyr yn 2021.

Roedd Rheilffordd Ffestiniog (isod) ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Sir Benfro, (gwaelod), ymhlith llawer a elwodd o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.



Dosbarthu trwy bartneriaeth

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid ar draws y sector treftadaeth i hysbysu a cheisio safbwyntiau trwy gydol y pandemig.

Cynhaliwyd chwe chyfarfod rhithwir o'r **Grŵp Amgylchedd Hanesyddol** ynghyd â nifer o gyfarfodydd is-grwpiau.



Buom yn gweithio gydag **Amgueddfa Genedlaethol Cymru** a'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** i gyflwyno negeseuon allweddol ynglŷn ag ailagor yng Nghymru.



Buom yn gweithio gyda thîm brand **Cymru Wales** i ddiweddarau brand Cadw i adlewyrchu ein gwerthoedd ac adeiladu hunaniaeth genedlaethol gryfach.



Gweithiodd Cadw gyda'r **sector twristiaeth** ar draws Cymru ar sawl lefel, gan gynnwys fforymau twristiaeth rhanbarthol i fynd i'r afael â materion a chyfleoedd cyffredin.



Dosbarthu trwy bartneriaeth

Chwaraeodd tîm polisi Cadw, fel rhan o'r uwch dîm ehangach ar draws yr Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth rôl allweddol wrth gefnogi Gweinidogion Cymru trwy gydol y pandemig. Rhoesom gyngor ar effaith COVID-19 ar y sectorau treftadaeth a diwylliant ac, yn benodol, ar atyniadau treftadaeth a chyrchfannau. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i geisio eu barn a'u hysbysu trwy'r adolygiadau 21 diwrnod rheolaidd.


Arweiniodd tîm Cadw hefyd ar y gwaith o baratoi canllawiau Llywodraeth Cymru i gefnogi ailagor diogel ar leoliadau diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a chyda chydweithwyr ar draws yr Isadran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Bu'r defnydd o gyfarfodydd rhithwir/fideo yn amhrisiadwy, gan ganiatáu amser i gyfarfodydd rhanddeiliaid allweddol gael eu cynnal o fewn oriau i ddatblygiad newydd. Mae cydweithio fel hyn ar draws y sector wedi meithrin perthnasoedd a phartneriaeth barhaol a fydd yn cynnig gwaddol positif pwysig i'r pandemig.

Mae cyfarfodydd rheolaidd y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (HEG) wedi digwydd yn rhithwir trwy gydol y cyfnodau clo gan alluogi cyfranogwyr i gwrdd a thrafod effaith COVID-19 yn eu sefydliadau unigol ac ar draws y sector. Mae'r cyfarfodydd hefyd wedi tynnu sylw at ddwy thema allweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod heriol hwn — gwerthfawrogiad o'n treftadaeth leol, neu 'treftadaeth ar stepen y drws', a sut mae ein mwynhad o le yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles.

Bydd y ddwy thema yn arbennig o bwysig wrth i ni barhau i wella o'r pandemig. O ganlyniad, mae gweithgorau wedi'u sefydlu i nodi cyfleoedd yn seiliedig ar y themâu hyn.

Mae gwaith Is-grŵp Newid Hinsawdd HEG hefyd wedi parhau gyda'r Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru: Cynllun Addasu Sector (SAP), a lansiwyd ym mis Chwefror 2020. Ar hyn o bryd mae'r is-grŵp yn paratoi ei adroddiad interim cyntaf ar gynnydd yn erbyn cynllun gweithredu SAP, yn seiliedig ar dystiolaeth gan 17 o sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Er bod hwn yn ddechrau addawol, mae angen cyfranogiad ac ymrwymiad ehangach o bob rhan o'r sector i wireddu potensial y SAP. ➔



Dosbarthu trwy bartneriaeth

Mae Cadw yn ymwneud yn uniongyrchol â nifer o brosiectau eraill sy'n ymwneud â newid hinsawdd, gan gynnwys sefydlu gweithgor mawndir, datblygu teclyn mapio peryglon cydweithredol, a chymrodoriaeth 12 mis sy'n edrych ar gadernid y stoc dai i newid hinsawdd, dan ofal Cadw mewn partneriaeth â thimau o bob rhan o Lywodraeth Cymru.

Rydym hefyd wedi bod yn gysylltiedig â nifer o fentrau eraill, gan weithio gyda phartneriaid o'r tu allan i'r sector treftadaeth. Y prif rai oedd dau adroddiad a baratowyd mewn ymateb i'r mudiad 'Black Lives Matter': archwiliad o henebion ac enwau lleoedd sy'n gysylltiedig â'r fasnach gaethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, a phennod treftadaeth, diwylliant a chwaraeon o Gynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft Llywodraeth Cymru: Cymru Wrth-hiliol. Lanswyd ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu ym mis Mawrth 2021. Bydd y cynllun terfynol, a fydd yn cynnwys nodau a chymau gweithredu, yn llywio gwaith y sector treftadaeth yn y maes hwn i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael eu trin fel dinesydd cyfartal.

Isod: Mae Cadw wedi cefnogi cloddiadau archaeolegol ym mryngaer Dinas Dinlle yng Ngwynedd, er mwyn ymchwilio a chofnodi gwybodaeth cyn i ran o'r fryngaer gael ei cholli.
© Hawlfraint y Goron:
PROSIECT CHERISH 2021



Gweithiodd Cadw gyda phartneriaid i ddatblygu a chyhoeddi'r Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru: Cynllun Addasu'r Sector (SAP) ym mis Chwefror 2020.

Astudiaeth achos

Y Fasnach Gaethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru

Ym mis Gorffennaf 2020, yn dilyn llofruddiaeth George Floyd yn yr Unol Daleithiau a chodi ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau hiliol, a dynnodd sylw at goffadwriaeth o ffigurau dadleuol o'r gorffennol, gofynnodd y Prif Weinidog i Gaynor Legall arwain grŵp annibynnol i gynnal archwiliad o henebion, adeiladau ac enwau strydoedd hanesyddol sydd â chysylltiadau â'r fasnach gaethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig. Cefnogwyd y gwaith hwn gan dîm bach yn Cadw a chan Dr Peter Wakelin, aelod anweithredol o Fwrdd Cadw.

Dangosodd Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, sut roedd y fasnach mewn caethweision a chamfanteisio trefedigaethol wedi'u hymgorffori yn economi a chymdeithas ein cenedl. Cymerodd forwyr a buddsoddwyr o Gymru ran yn y fasnach mewn caethweision; gwnaed brethyn, copr a haearn o Gymru ar gyfer marchnadoedd a oedd yn ddibynnol ar gaethwasiaeth, ac roedd cynnyrch a ffermiwyd gan bobl gaeth yn cael ei fasnachu yng Nghymru. Roedd y gweithgaredd hwn yn sylfaenol i ddatblygiad Cymru fel cenedl ddiwydiannol. Nododd yr archwiliad 209 o henebion, adeiladau neu enwau strydoedd, a leolir ym mhob rhan o Gymru, sy'n coffáu pobl a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chaethwasiaeth a'r fasnach mewn caethweision, neu a oedd yn gwrthwynebu ei diddymu.

Canfu'r archwiliad mai anaml y mae dehongliad cysylltiedig sy'n mynd i'r afael â materion dadleuol yn cyd-fynd â choffáu pobl sy'n gysylltiedig â'r fasnach mewn caethweision. Heb hyn, gellir eu hystyried fel modelau rôl yn hytrach na'u deall yng nghyd-destun agweddau heriol ar ein gorffennol.

Canfu'r ymchwil hefyd mai ychydig o bobl o Gymru sydd o dreftadaeth Ddu neu Asiaidd sy'n cael eu coffáu ledled

Roedd obelisg a godwyd er cof am Is-gadfridog Syr Thomas Picton, yng Nghaerfyrddin yn 1847, yn un o henebion a nodwyd yn yr archwiliad a oedd yn coffáu person a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â chaethwasiaeth a'r fasnach gaethweision.
© Hawlfraint y Goron: CBHC



Cymru ac ystyriwyd rhai ffigurau arwyddocaol a allai gael eu dathlu yn y dyfodol am eu cyfraniadau i'n gwlad.

Mae llinyn positif, fodd bynnag, a ddangosir yn y goffadwriaeth o actifyddion gwrth-gaethwasiaeth ledled Cymru; o gerflun Henry Richard yn Nhregaron, i enwau strydoedd ar gyfer Samuel Romilly a neuadd breswyl Pantycelyn ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Bwriadwn adeiladu ar y gwaith hwn i sicrhau ein bod yn adlewyrchu ac yn dathlu ein hanes ar y cyd yn fwy cyfannol ac i ddileu gwahaniaethu a rhwystrau ym mhob agwedd ar waith Cadw. Bydd hyn hefyd yn cael ei lywio gan ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chymunedau y Senedd, *Ar gof a chadw? Adroddiad ar bwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus*, a bydd yn ystyried y nodau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol.

Tabl 1
Grantiau Cyfalaf a Refeniw Cadw 2020–21

Prosiect	Disgrifiad	Swm
Taliadau Grant Refeniw'r Amgylchedd Hanesyddol		
Grantiau dros £10,000		
Castell y Waun	Taliad tuag at ddiffyg cynnal a chadw.	£250,000
Cyfeillion Eglwysi Di-gyfeillion	Cefnogi mecanwaith newydd Cyfeillion Eglwysi Di-gyfeillion ar gyfer eglwysi segur yng Nghymru.	£85,968
Cronfa Treftadaeth Bensaernïol	Cyfrannu at adfywiad cymunedol trwy gyngor, meithrin gallu, cefnogi a chyllid ar gyfer elusennau a sefydliadau nid-er-elw eraill sy'n dymuno dod ag adeiladau hanesyddol mewn perygl yn ôl i ddefnydd economaidd hyfyrw yng Nghymru.	£29,131
Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru	Galluogi Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru i gyflawni ei gweithgareddau craidd i ddiogelu'r adeiladau yr ystyrir eu bod mewn perygl trwy eu hatgyweirio a'u cadwraeth, a hyrwyddo arfer gorau trwy gefnogaeth a hyfforddiant.	£70,808
Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys	Gwarchod ac amddiffyn amgylchedd hanesyddol Cymru gan gynnwys:	£304,250
Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed	— Cofnodi archeolegol sy'n gysylltiedig â bygythiad, arolygon, asesiadau, cloddiadau a briffiau gwyllo	£306,293
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd	— Adnabod asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol — Cynnal a rheoli'r cofnod amgylchedd hanesyddol rhanbarthol (HER)	£303,697
Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent	— Cefnogi rheolaeth gynaliadwy amgylchedd hanesyddol Cymru trwy ddarparu cyngor curadurol cynllunio a rheoli rhanbarthol — Hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o dreftadaeth Cymru — Cefnogi ymgysylltiad cymunedol â'r amgylchedd hanesyddol	£330,000
Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig	Cefnogi rheolaeth a gweinyddiaeth yr amgueddfa fel Amgueddfa Achrededig ar agor i'r cyhoedd i: — Sicrhau'r lefel briodol o ofal a rheolaeth arteffactau ac eitemau eraill sy'n ffurfio casgliadau craidd yr amgueddfa i'r safonau sy'n ofynnol gan y Cynllun Achredu — Darparu dysgu gydol oes ac ymgysylltu â'r cyhoedd a gwasanaethau addysg.	£90,000
Gwasanaethau Treftadaeth Archeolegol Vianova	Er mwyn galluogi cyhoeddi erthygl 10,000 gair gan Dr Peter Guest yn <i>Britannia</i> , o'r enw 'The Forum-Basilica at Caerwent (<i>Venta Silurum</i>): a history of the Roman Silures' ar gyfer 2021.	£10,000
Grantiau am lai na £10,000 (10 grant)		£49,126
Cyfanswm Grantiau Refeniw 2020–21		£1,829,273

Prosiect	Disgrifiad	Swm
Taliadau Grant Cyfalaf yr Amgylchedd Hanesyddol		
Grantiau dros £10,000		
Grantiau Adeiladau Hanesyddol Cadw		
Guildhall, Llantrisant	Atgyweiriadau i orffeniadau wal, llawr a nenfwd.	£12,452
Cyn Synagog Merthyr Tudful	Atgyweirio'r to, ffenestri, grisiau, landin, waliau a chlirio llystyfiant.	£41,800
Eglwys Santes Frynach, Nyfer, Sir Benfro	Adfer y clochdy, atgyweiriadau i ddifrod dŵr glaw ac atgyweiriadau strwythurol i waith cerrig.	£25,000
Eglwys Sant Elfan, Aberdâr	Ailosod cerrig meini copa, ailbwyntio gwaith cerrig (gan gynnwys y twr) ac atgyweiriadau i'r meindwr.	£42,351
Cyfalaf Cronfa Treftadaeth Bensaernïol	Gweithio mewn partneriaeth â'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol ar eu Grantiau Hyfywedd Prosiect, Grantiau Gwaith Cyfalaf Prosiect, Grantiau Datblygu Prosiect a Chronfa Effaith Treftadaeth.	£450,000
John Summers Clock Tower	Sgaffaldiau i ganiatáu adfer twr.	£50,000
Grantiau am lai na £10,000 (25 grant)		£103,961
Cyfanswm Grantiau Cyfalaf 2020–21		£725,564

Tabl 2
Cam 1 y Gronfa Adferiad Diwylliannol: Grantiau Sector Treftadaeth a Ddyfarnwyd

Sefydliad	Swm
Grantiau dros £25,000	
1940s Swansea Limited	£31,988
Ymddiriedolaeth Adfer Aberglasne	£116,082
Archesgobaeth Caerdydd	£127,667
Brecon Mountain Railway Co. Ltd	£124,372
Ymddiriedolaeth Treftadaeth Brymbo	£30,626
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeilad Cadwgan	£52,190
Calon Llanelli Ltd	£32,979
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd	£70,000
Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys	£106,380
Constitution Hill Ltd, Aberystwyth	£59,040
Cyngor Archeoleg Prydain	£50,912
Rheilffordd Stêm Fairbourne	£106,072
Cyfeillion Eglwysi Di-gyfeillion	£74,400
Cyfeillion Castell Ystumllwynarth	£89,001
Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent	£149,939
Ymddiriedolaeth Gregynog	£94,225
Cwmni Rheilffordd Gwili	£46,583
Castell Gwydir	£63,390
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych	£77,808
Hanes Llandocho	£48,151
Ymddiriedolaeth Castell y Gelli	£150,000
Ymddiriedolaeth Cwrt Insole	£97,037
Eglwys Gadeiriol Llandaf	£150,000
Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen	£147,860
Menter Dinefwr	£33,630
Nant Gwrtheyrn	£150,000
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	£498,935
Cymdeithas Clawdd Offa	£62,228
Ymddiriedolaeth Castell Picton	£149,987

Sefydliad	Swm
Parhad Grantiau dros £25,000	
Ymddiriedolaeth Plasty Plas Gunter	£30,000
Rheilffordd Llyn Tegid / Rheilffordd Llyn Bala	£149,915
Eglwys Gadeiriol Llanelwy	£119,660
Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur	£55,456
CIO Cynulliad Tabernacl Treforys	£64,200
Rheilffordd Tal-y-llyn	£150,000
Deon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Tyddewi	£149,961
Deon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Aberhonddu	£67,651
Cwmni Rheilffordd Ffestiniog	£900,000
Yr Hwb, Torfaen	£39,309
Tree and Sons Limited (cynnig grant 3 Chwefror 2021)	£57,000
Rheilffordd Cwm Rheidol	£150,000
Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru	£37,275
Welshpool & Llanfair Light Railway Preservation Co. Ltd	£138,221
Ymddiriedolaeth Elusenol Y Felin Ddŵr	£30,000
Grantiau am lai na £25,000 (54 grant)	£582,197
Cyfanswm	£5,712,327

**Cadw—er lles pawb.
For us all, to keep.**